



Tyfu Canolbarth Cymru
Cofnodion y Cyfarfod Partneriaeth
Y Siambr, Neuadd y Sir
Llandrindod, Powys, LD1 5LG
Dydd Gwener, 29 Gorffennaf, 2016
10.10am – 12.15pm

Yn Bresennol

Y Cynghorydd Barry Thomas (Cadeirydd), Cyngor Sir Powys
Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn (Is-gadeirydd), Cyngor Sir Powys
Ann Elias, Cyngor Sir Ceredigion
Ann Watkin, Llywodraeth Cymru
Bernard Griffiths, Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)
Ceri Stephens, Grŵp Gweithgynhyrchu Canolbarth Cymru
Claire Miles, Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys
Y Cynghorydd Alun Williams, Cyngor Sir Ceredigion
Y Cynghorydd Avril York, Cyngor Sir Powys
Y Cynghorydd Gareth Lloyd, Cyngor Sir Ceredigion
Geraint Pugh, Prifysgol Aberystwyth
Huw T. Morgan, Cyngor Sir Ceredigion (**10.10am-11.30am**)
Jacqui Weatherburn, Coleg Ceredigion
Jenni Thomas, Cyngor Sir Powys
Kim Phelps, Llywodraeth Cymru
Mike Shaw, Cyngor Sir Powys
Nia Williams, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Paul Griffiths, Cyngor Sir Powys
Russell Hughes-Pickering, Cyngor Sir Ceredigion
Sarah Thomas, NFU Mutual
Sue Bolter, Cyngor Sir Powys

Yn bresennol drwy wahoddiad

Mrs Terri Thomas, Dirprwy Gyfarwyddwr: Gwledig, Llywodraeth Cymru
Rob Halford, Llywodraeth Cymru
Michael Groves, Llywodraeth Cymru
Viv Collins, Llywodraeth Cymru

1. Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau	Estynnodd y Cynghorydd Barry Thomas, Cadeirydd Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru, groeso i bawb i'r cyfarfod, a chyflwyno pawb. Cafwyd ymddiheuriadau gan: <ul style="list-style-type: none">• Arwyn Watkins, Cambrian Training• Barry Liles, Coleg Sir Gâr• Carl Cooper, PAVO• Doug Hughes, Hughes Architects	
---	---	--

	<ul style="list-style-type: none"> • Dr. Rhodri Llwyd Morgan, Prifysgol Aberystwyth • Dr Sue Fish, Bwrdd Iechyd Hywel Dda • Jane Davidson, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant • Jane Lewis, Partneriaeth Dysgu Rhanbarthol • Jeremy Patterson, Cyngor Sir Powys • John Jones, Llywodraeth Cymru • Mared Jones, Undeb Amaethwyr Cymru (FUW) • Paul Evans, Venture-Automotive • Peter Howells, NFU Mutual 	
2. Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Ebrill 2016	<p><u>Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Ebrill 2016</u></p> <p>Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Ebrill, 2016 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.</p> <p>Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion.</p>	
3. Refferendwm y DU a chanlyniadau CCC a Chomisiynydd yr Heddlu: Goblygiadau	<p>Estynnwyd croeso gan y Cadeirydd i Mrs Terri Thomas (TT) a Mr Rob Halford (RH), Llywodraeth Cymru, oedd yn y cyfarfod i amlinellu'r sefyllfa bresennol yn dilyn y Refferendwm a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2016.</p> <p>Pwysleisiodd y Cadeirydd pa mor ddiolchgar oedd y Bartneriaeth am eu presenoldeb yn y cyfarfod heddiw.</p> <p>Cyflwynodd RH ei hun i'r cyfarfod gan amlinellu'r sefyllfa bresennol i'r aelodau. Esboniodd RH fod cyfnod o ansicrwydd ar hyn o bryd a'i bod hi'n anodd gwybod yn union beth fyddai'n digwydd yn y dyfodol; mae trafodaethau'n parhau ac mae'r sefyllfa yn newid yn gyson.</p> <p>Esboniodd RH fod Cymru mewn sefyllfa wahanol i'r Alban a Gogledd Iwerddon oherwydd mae Cymru wedi elwa'n fawr o gyllid yr Undeb Ewropeaidd o fwy na £600 miliwn y flwyddyn.</p> <p>Nododd RH fod y Prif Weinidog wedi ysgrifennu at Brif Weinidog y DU yn ddiweddar gan nodi'r angen i'r cyllid barhau. Fodd bynnag, nid oes unrhyw sicrwydd y daw cyllid arall yn lle'r cyllid hwn. Mae'r Prif Weinidog yn parhau i geisio sicrhau ein bod yn cael cyllid arall yn ei le.</p> <p>Nododd RH y pwyntiau allweddol canlynol:-</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Bydd cyllid yr UE y mae Cymru yn manteisio arno ar hyn o bryd yn parhau tra bydd y DU yn parhau i fod yn aelod o'r UE. 2. I adael y DU, bydd rhaid i Brif Weinidog y DU weithredu Erthygl 50, a deallir na chaiff ei gweithredu tan yn gynnar y flwyddyn nesaf. Y cynharaf y bydd y DU yn debygol o adael yr UE fyddai diwedd 2018/dechrau 2019. 3. Daw cyllid yr UE mewn cyfrannau fesul 7 mlynedd. Mae'n bosib y bydd cyllid yn parhau tan ddwedid pob rhaglen a ariennir gan yr UE. 	

4. Mae WEFO wedi penderfynu parhau i brosesu ceisiadau a dyfarniadau ar gyfer cymorth yr UE ond gydag ymagwedd fwy seiliedig ar risg. Bydd pob cynnig yn mynd trwy gamau atodol. Cyngorodd RH y dylai aelodau sy'n ymwneud â datblygu cynigion barhau i wneud hynny.

Bydd Llywodraeth Cymru (LIC) yn parhau i gydweithredu â rhaglenni gweithredol a gytunwyd â Chomisiwn yr UE. Ni all unrhyw ymgysylltu neu drafodaethau anffurfiol ar y cynllun pontio ddechrau gyda'r Comisiwn UE nes bod Erthygl 50 yn cael ei gweithredu.

Rhoddodd TT drosolwg o'r goblygiadau o ran Datblygu Gwledig a'r ymateb mewn perthynas â'r Polisi Amaethyddol, y Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr o dan Golofn 1, a'r Rhaglen Datblygu Gwledig o dan Golofn 2.

Unwaith eto, ailadroddodd TT nad oes unrhyw sicrwydd ynghylch y sefyllfa ariannol yn y dyfodol o ran Llywodraeth y DU, ac mae Colofn 2 sy'n dod yn uniongyrchol o Gomisiwn yr UE yn destun pryder arbennig oherwydd nid oes unrhyw sicrwydd y ceir yr un lefel o gyllid.

Nododd TT fod rhai prosiectau wedi cael eu heffeithio ac wedi cael eu hatal dros dro oherwydd bod contractau 5 mlynedd ganddynt ar gyfer eu cyllid a allai eu cymryd trwyddo i'r cyfnod ar ôl gadael yr UE.

Dilynwyd hyn gan gyfle i ofyn cwestiynau a thrafodaeth. Y pwyntiau allweddol a nodwyd oedd:-

- Oherwydd bod nifer o'r pecynnau cyllid yn cael eu cyfateb yn ganolog, fyddai modd gwario cyllid yr UE yn gyntaf a chyllid lleol wedi hynny ar gyfer unrhyw brosiect mwy hirdymor?

Cadarnhaodd RH y gallai hyn fod yn iawn a byddai pob dull gweithredu yn cael ei ystyried o ran gwario arian, fodd bynnag, bydd yn dibynnu'n fawr ar y prosiectau unigol, a bydd rhaid eu hystyried yn ofalus iawn. Bydd LIC yn gwneud popeth o fewn ei gallu i helpu.

- Ddylai Awdurdodau Lleol fod yn ystyried datblygu cynlluniau mwy byrdymor?

Nododd RH fod problemau ynglŷn â gwneud hyn. Bydd LIC yn darparu'r hyn a gytunwyd ac a gymeradwywyd gyda phrosiectau'n cael eu defnyddio mewn ffordd mor hyblyg â phosibl.

- O ran cyllid a phrosiectau sydd ar y gweill ar hyn o bryd, mae prosiectau amrywiol yn cael eu hoedi am resymau proses. Fyddai modd i'r gwariant fod yn fwy hyblyg?

	<p>Nododd RH fod yr Uwch Dîm Rheoli yn WEFO yn gweithio ar y broblem hon ac yn ystyried pob prosiect o fewn y cam cynllunio busnes.</p> <p>Nododd AW fod y Prif Weinidog wedi ymateb i ganlyniad y Refferendwm trwy amlinellu 6 prif flaenoriaeth. Y flaenoriaeth yw diogelu swyddi yng Nghymru a chynnal hyder a sefydlogrwydd yn yr economi.</p> <p>Estynnodd y Cadeirydd ddiolch i Mrs Terri Thomas a Mr Rob Halford am fod yn bresennol yn y cyfarfod heddiw, ac estynnodd wahoddiad iddynt ddod i'r cyfarfod nesaf o Bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru ar 6 Hydref 2016 i roi diweddariad pellach.</p> <p>Gweithredu: TT a RH i fynychu Cyfarfod Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru ar 6 Hydref, 2016, i roi diweddariad pellach.</p>	TT/RH
<p>4. Band Eang Cyflym lawn a Ffonau Symudol yng Nghanolbarth Cymru</p>	<p>Cafwyd cyflwyniadau gan Viv Collins (VC) a Michael Groves (MG), Llywodraeth Cymru ar Fand Eang Cyflym lawn a Ffonau Symudol yng Nghanolbarth Cymru. Mae copïau o'r cyflwyniadau wedi'u hatodi er gwybodaeth.</p> <p><u>Cyflymu Cymru – Diweddariad Cynnydd Adleoli</u></p> <p>Canolbwyntiodd y cyflwyniad ar y canlynol:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Crynodeb o weithredu Cyflymu Cymru ers 2013. • Cynnydd adeiladu hyd yma - 426 o ardaloedd yng Nghymru wedi'u cwmpasu gyda Band Eang Cyflym lawn erbyn hyn. • Gwybodaeth ar y technolegau a ddefnyddir gan BT - Ffibr i'r Cabinet a Ffibr i'r Eiddo. • Llwyddiannau a methiannau'r prosiect. • Sut i wirio ei fod ar gael yn eich ardal trwy'r Gwiriwr Argaeledd ar wefan Llywodraeth Cymru. • Mae gwybodaeth ystadegol ar gyfer Ceredigion a Phowys yn dangos bod cyfanswm o 27% o bobl yn derbyn Cyflymu Cymru yng Ngheredigion a 22% ym Mhowys. Mae dros 21% yn ei dderbyn yn genedlaethol. • Diweddariad Ffonau Symudol yn canolbwyntio ar gwmpas 4G ledled Cymru. <p>Estynnodd y Cadeirydd ddiolch i VC am ei chyflwyniad i'r Bartneriaeth heddiw. Cafwyd trafodaeth a chyfle i ofyn cwestiynau.</p> <p><u>Gweithredu Band Eang Cyflym lawn a Manteisio Arno</u></p> <p>Rhoddodd Michael Groves, Cyfarwyddwr y Rhaglen, gyflwyniad i'r Bartneriaeth (wedi'i atodi) ar sut mae Band Eang Cyflym lawn o fudd mawr i fusnesau.</p>	

	<p>Canolbwyntiodd y cyflwyniad ar:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Beth yw Band Eang Cyflym lawn a pham ei fod yn bwysig • Sut y gall busnesau elwa ar Fand Eang Cyflym lawn • Yr effaith gadarnhaol fwyaf ar fusnesau a ddangosodd mai technoleg symudol fydd yn cael yr effaith gadarnhaol fwyaf ar fusnesau dros y 5 mlynedd nesaf • Cefndir ar gyfrifiadura cwmwl a sut y gall hyn fod o fudd i fusnesau • Manylion am gynghorwyr ar-lein a gweithdai a gynhelir i gynghori busnesau <p>Mae rhagor o wybodaeth ar Gyflymu Busnesau Cymru a Chyflymu Cymru i'w gweld trwy'r gwefannau canlynol:</p> <p>http://business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/</p> <p>http://www.superfast-cymru.com/home</p> <p>Dilynydd hyn gan gyfle i ofyn cwestiynau.</p> <p>Croesawodd y Cadeirydd weithdy pellach er mwyn i Aelodau Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys archwilio ymhellach y cyfleoedd ar gyfer Awdurdodau Lleol.</p> <p>Estynnodd y Cadeirydd ddiolch i MG am ei gyflwyniad heddiw.</p>	
<p>5. Fframwaith Gweithredu</p>	<p>Cyflwynodd JT y cysyniad dylunio ar gyfer Fframwaith Gweithredu Tyfu Canolbarth Cymru i'r Bartneriaeth. Esboniodd JT y dylai'r fersiynau drafft terfynol Cymraeg a Saesneg fod ar gael erbyn canol Awst 2016. Mae'r Fframwaith yn dangos gweithgarwch busnes ar draws yr ardal a bod Canolbarth Cymru yn croesawu busnesau.</p> <p>Pwrpas y Fframwaith yw cael dogfen eirioli gryf, ddiamwys ac eglur ar gyfer Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru y gellir ei defnyddio i gyfleu ei neges a'i gweledigaeth.</p> <p>Nododd SB y bwriedir i'r Fframwaith gynnwys llawer o luniau a bod y testun yn ysgafn Nododd SB fod y lluniau yn tueddu i ganolbwyntio gormod ar ffordd o fyw a bywyd gwledig ar hyn o bryd a gofynnodd i'r aelodau am luniau sy'n fwy newydd / canolbwyntio ar dechnoleg i ddangos ein dyheadau.</p> <p>Gofynnodd JT os oedd gan unrhyw aelodau o'r Bartneriaeth luniau yr hoffent eu cynnwys yn y Fframwaith y dylid eu hanfon ati hi neu Seren Jones (seren.jones2@ceredigion.gov.uk) erbyn wythnos i heddiw (dydd Gwener, 5 Awst 2016).</p> <p>Gweithredu: Aelodau Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru i anfon unrhyw luniau yr hoffent eu cynnwys yn Fframwaith</p>	<p>Pawb</p>

	<p>Gweithredu Tyfu Canolbarth Cymru at Jenni Thomas neu Seren Jones erbyn dydd Gwener, 5 Awst 2016.</p>	
<p>6. Diweddariad Trafnidiaeth Strategol Chwarter 2 2016 (Atodiad B ac C)</p>	<p>Rhoddodd AE ddiweddariad ar Drafnidiaeth Strategol Chwarter 2 2016 ac aeth â'r Bartneriaeth trwy'r un peth er eu gwybodaeth.</p> <p>Nodwyd y canlynol:-</p> <p><u>Rhyddfrait Rheilffordd Cymru a'r Gororau</u></p> <p>Mae Rhyddfrait Cymru a'r Gororau yn mynd rhagddo'n dda.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi "Datganiad o Ddiddordeb Rhyddfrait" ar gyfer y Dyfarniad Rhyddfrait nesaf. Nododd AE ei bod hi'n edrych yn debyg y bydd 3 chynigiwr yn dod ymlaen a fydd yn golygu bod modd cynnal trafodaethau gwell. Mae adroddiadau AE yn nodi mai "Trafnidiaeth Cymru" fydd yn ymgymryd â'r broses ryddfrait ar ran Llywodraeth Cymru, a bydd yn derbyn sylwadau hyd at 26 Awst 2016. Nododd AE ei bod wedi mynychu Digwyddiad Ymgysylltu â Rhanddeiliaid ar 26 Gorffennaf 2016 yn Amwythig lle y rhoddwyd rhai manylion am y rhyddfrait, ond roedd hi ychydig yn siomedig nad oedd rhagor o wybodaeth ar gael yn y digwyddiad.</p> <p>Cyhoeddodd Ken Skates AC, Ysgrifennydd Cabinet dros yr Economi a Seilwaith, ei fod yn dal i gynnal trafodaethau manwl ar fanylion terfynol y rhyddfrait a bod "<i>Gwasanaethau trawsffiniol yn faes pwysig i'w ganolbwyntio arno, yn enwedig pa wasanaethau ddylai gael eu gweithredu o dan ein rhyddfrait nesaf.</i>" Nodwyd y gallai hyn awgrymu nad yw'r gwasanaeth trwyddo i Birmingham International wedi'i warantu.</p> <p>Nodwyd bod y Gweinidog am weithio ar y cyd â Midland Connect i gael gwell cysylltiad o'r dwyrain i'r gorllewin.</p> <p>Pwysleisiodd EAG fod rhaid i ni sicrhau bod cysylltiadau trafniadaeth rhwng de a gogledd Cymru yr un mor bwysig â chysylltiadau trafniadaeth ar draws Canolbarth Cymru.</p> <p><u>Rhyddfrait Rheilffordd Gorllewin Canolbarth Lloegr</u></p> <p>Nododd AE fod 3 chynigiwr wedi cael eu rhoi ar y rhestr fer ar gyfer Rhyddfrait Gorllewin Canolbarth Lloegr sy'n cynnwys gwasanaethau ar y lein rhwng Amwythig a Birmingham. Maent i lawr i 2 gynigiwr bellach. Bydd AE yn cadw golwg agos ar yr hyn sy'n digwydd ac yn diweddarau Tyfu Canolbarth Cymru.</p> <p><u>Gorsaf Machynlleth - Rheilffordd y Cambrian</u></p> <p>Nododd AE eu bod yn dal i aros i'r liffitiau gael eu comisiynu. Nid oes unrhyw newyddion pellach am yr estyniad i'r meysydd parcio.</p>	

Yr Adran Drafnidiaeth yn hyrwyddo twristiaeth rheilffyrdd - cyllid prosiect

Roedd gan AE newyddion da am y cynigion rheilffordd a gafodd eu cwblhau ar draws Cymru yn dilyn y datganiadau o ddiddordeb ar gyfer prosiectau twristiaeth rheilffordd. Maent wedi cadarnhau tri phrosiect yng Nghymru, ac un ohonynt yw'r prosiect "Trenau Bach Arbennig Cymru" sydd wedi cael cyllid.

Y Bil Rheilffyrdd

Bydd Senedd y DU yn parhau i weithredu ar Fil Rheilffyrdd newydd.

Rhyddfrait InterCity West Coast Rail - ymgynghoriad Mai 2016 (12 wythnos)

Nododd AE nad yw ein gwasanaethau yn cysylltu â Gwasanaeth Virgin Rail o Amwythig yn uniongyrchol i Lundain ar hyn o bryd. Nododd AE fod trafodaethau'n mynd rhagddynt i gynyddu amllder y llwybr hwnnw a allai ddarparu cyfleoedd.

Y cynnig i ailagor y lein o Aberystwyth i Gaerfyrddin

Bydd CSC yn helpu LIC gyda Cham 1 astudiaeth WeTAG a gobeithir y bydd yn barod erbyn diwedd Awst.

Ymgysylltu Trawsffiniol

Nododd AE fod gwaith yn parhau gyda Phartneriaeth Menter Leol y Gororau ynghylch cynlluniau trawsffiniol a llifoedd trafnidiaeth i mewn ac allan o ardal y Gororau, sy'n bwysig i Ganolbarth Cymru.

Nododd PG fod rhaid i ni ystyried y ffordd orau o ddylanwadu ar y cynlluniau hyn. Cytunodd MS y byddai'n fuddiol i ystyried hyn fel eitem ar yr agenda yn y cyfarfod ar y cyd arfaethedig nesaf o Bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru a Phartneriaeth Menter Leol y Gororau ym mis Tachwedd. (Gweler eitem 9 o'r cofnodion am ragor o wybodaeth).

Nododd EAG ei bod hi a'r Cadeirydd, y Cynghorydd Barry Thomas, wedi anfon llythyr at yr Ysgrifennydd Cabinet newydd ar gyfer yr Economi a Seilwaith, Ken Skates AC, gyda gwybodaeth gefndir am Bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru ynghyd â'r cylch gorchwyl gyda gwahoddiad i gynnal trafodaethau pellach, neu yn wir wahoddiad i fynychu cyfarfod o Bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru yn y dyfodol.

Cadarnhaodd AW fod y Gweinidog wedi derbyn y llythyr a'i fod yn cael ei ystyried. Nid oedd AW yn sicr a fyddai'r cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Gweinidog a'r Arweinwyr yn ailgychwyn ac esboniodd fod dyddiadur yr Ysgrifennydd Cabinet yn brysur iawn. Nododd AW fod y

	<p>Gweinidog yn canolbwyntio ar ymgysylltu trawsffiniol a hefyd yn cynnal trafodaethau â Midland Connect.</p> <p>Nodwyd y dylai Fframwaith Tyfu Canolbarth Cymru gael ei ailystyried cyn ei baratoi'n derfynol i sicrhau bod materion trawsffiniol yn amlwg o fewn y ddogfen.</p> <p>Estynnodd y Cadeirydd ddiolch i AW am ei diweddariad i'r Bartneriaeth heddiw.</p>	
<p>7. Diweddariad Ymgysylltu Rhanbarthol Canolbarth Cymru; (i gynnwys adroddiad ar Raglen Trawsnewid Dysgu a Sgiliau Powys) (Atodiad Ch)</p>	<p>Aeth MS â'r Bartneriaeth trwy'r Adroddiad atodedig. Mae cyfarfodydd y Gweithgor wedi canolbwyntio ar y rhyngweithio a bwydo gwybodaeth i mewn i'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol i sicrhau bod ei gwaith yn adlewyrchu anghenion Canolbarth Cymru.</p> <p>Yn ôl yr Adroddiad roedd y Gweithgor wedi cael cyflwyniad ar 22 Mehefin 2016 ar Raglen Trawsnewid Dysgu a Sgiliau Powys ac mae'r Adroddiad yn cynnwys diweddariad o sut y mae hyn wedi datblygu a sut y caiff ei weithredu yn y dyfodol. Nodwyd y gallai hyn gynnwys y syniad o gynnal digwyddiad Entrepreneuriaeth Ieuencid Canolbarth Cymru y gallai Bwrdd Rhaglen Powys ei ddatblygu ar y cyd â'i ddigwyddiad.</p>	
<p>8. Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol - Cynllun Cyflenwi Rhanbarthol ar gyfer Cyflogaeth a Sgiliau Diweddariad / cymeradwyo ymateb (Atodiad D)</p>	<p>Nododd MS fod y Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol terfynol yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru heddiw (29 Gorffennaf 2016). Nododd MS fod y Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol drafft ar gyfer De-orllewin a Chanolbarth Cymru wedi cael ei gylchredeg i'r aelodau ei ystyried ar 8 Gorffennaf 2016.</p> <p>Nododd MS bryderon ynghylch sut mae anghenion Canolbarth Cymru yn cael eu trafod o fewn y Cynllun a'r daenlen Excel atodedig, ac ni allai annog Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru i gymeradwyo'r Cynllun ar y cam hwn.</p> <p>Ailddatganodd EAG y pryderon hyn sef bod y ddogfen heb dynnu sylw at anghenion Canolbarth Cymru. Dywedodd EAG fod rhaid ailystyried hyn i sicrhau bod anghenion Canolbarth Cymru yn cael eu hadlewyrchu yn y ddogfen.</p> <p>Nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cytuno â'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol y gallai fod diwygiadau pellach i'r ddogfen cyn ei chwblhau'n derfynol yn Hydref 2017. Nododd MS y byddai'r Gweithgor yn trafod y materion a'r pryderon yn ystod mis Medi.</p> <p>Nododd y Cadeirydd os na fydd y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol yn ystyried sylwadau Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru a'r pryderon a godwyd, bydd ef fel Arweinydd Cyngor Sir Powys a'r Cyngorydd Ellen ap Gwynn, Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion, yn trefnu cyfarfod â'r Ysgrifennydd Cabinet perthnasol yn Llywodraeth Cymru i drafod y pryderon.</p>	

<p>9. Adolygiad o Swyddog TCC ac Aelodaeth o'r Bartneriaeth</p>	<p>Cafwyd trafodaethau ynghylch yr adolygiad o Aelodaeth a Swyddogion Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru. Teimlwyd bod presenoldeb y sector preifat wedi lleihau yng nghyfarfodydd Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru. Cytunodd y Bartneriaeth fod cynrychiolaeth o'r sector preifat ar y Bartneriaeth o fudd mawr, a dylai'r Bartneriaeth weithio tuag at ddenu cynrychiolwyr, gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, a'u bod yn gwneud cyfraniad pwysig trwy fynychu'r cyfarfodydd.</p> <p>Gofynnodd y Cadeirydd am Adroddiad yng nghyfarfod nesaf Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru (6 Hydref 2016) gydag argymhellion ar sut y gallai'r Bartneriaeth ddenu mwy o aelodau o'r sector preifat.</p> <p>Yn y cyfamser a chyn y cyfarfod nesaf, gofynnodd y Cadeirydd os oes gan unrhyw Aelodau'r Bartneriaeth argymhellion neu enwebiadau ar gyfer cynrychiolwyr o'r sector preifat eu bod yn eu cylchredeg i bawb gael eu hystyried.</p> <p>Gweithredu: Adroddiad i'w gyflwyno yng nghyfarfod nesaf Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru ar 6 Hydref 2016 gydag argymhellion ar sut y gallai'r Bartneriaeth ddenu mwy o aelodau o'r sector preifat.</p>	
<p>10. Adroddiad Coridorau Trafnidiaeth Strategol y Gororau (Atodiad Dd)</p>	<p>Cyfeiriodd MS at y llythyr eglurhaol atodedig a'r Adroddiad Coridorau Trafnidiaeth Strategol - Mai 2016 (atodedig) a dderbyniwyd gan Bartneriaeth Menter Leol y Gororau.</p> <p>Esboniodd MS ar ddiwedd y llythyr eglurhaol gan Gadeirydd Partneriaeth Menter Leol y Gororau ei fod yn gofyn am gyfarfod rhwng Partneriaeth Menter Leol y Gororau a Phartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru er mwyn i'r ddwy bartneriaeth allu cydweithio a sicrhau buddsoddiad trafniadaeth yn ardal y Gororau. Esboniodd MS fod cyfarfod o'r swyddogion yn debygol o gael ei gynnal yn gynnar yn yr Hydref cyn cynnal cyfarfod ar y cyd yn Nhachwedd 2016. Bydd agenda addas yn cael ei baratoi ar gyfer y cyfarfod gan nodi'r meysydd â blaenoriaeth ar gyfer y ddwy bartneriaeth.</p> <p>Roedd Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru wedi cytuno i benderfynu ar ddyddiad addas yn Nhachwedd 2016 i gynnal cyfarfod ar y cyd rhwng Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru a Phartneriaeth Menter Leol y Gororau.</p> <p>Gweithredu: MS i nodi dyddiad addas i gynnal y cyfarfod partneriaeth ar y cyd rhwng Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru a Phartneriaeth Menter Leol y Gororau yn ystod Tachwedd 2016.</p>	<p>MS</p>
<p>11. Eitemau i'w codi yng nghyfarfod y swyddogion</p>	<p>Trafodwyd fel rhan o eitem 9 uchod.</p>	

gyda Phartneriaeth Menter Leol y Gororau ym mis Medi		
12. Unrhyw Fater Arall	Nid oedd unrhyw eitemau ychwanegol i'w trafod heddiw. Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben trwy ddiolch i bawb am fod yn bresennol ac am y cyflwyniadau a gafwyd.	
13. Dyddiad y cyfarfod nesaf:-	Dyddiad y cyfarfod nesaf: - Dydd Iau, 6 Hydref am 2pm yn y Siambr, Neuadd Cyngor Sir Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0PA <u>Dyddiad Nesaf</u> Dydd Gwener, 6 Ionawr, 2017, 10am yn Llandrindod, Powys	

**Y CYNGHORYDD BARRY THOMAS
CADEIRYDD**